# Cynigion trefniadaeth ysgolion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk




Pum cam ar gyfer gwneud newidiadau i'ch ysgol

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus bod holl blant a phobl ifanc Cymru yn cael yr addysg orau bosibl, ac felly mae'n bwysig bod pob ysgol cystal ag y mae'n gallu bod.

**Weithiau, rhaid i ysgol newid er mwyn cyflawni'r nod hwnnw.**

Mae'r awdurdod lleol (neu'r 'cyngor' fel mae'n cael ei alw) yn gyfrifol am yr ysgolion yn ei ardal, ac mae hefyd yn gyfrifol am wneud y penderfyniadau ynghylch yr ysgolion hynny.

Mewn rhai mannau, mae angen ysgol newydd neu mae angen gwneud yr ysgol yn fwy, er mwyn sicrhau bod digon o le i'r holl blant a phobl ifanc gael eu haddysg. Mewn mannau eraill, nid oes angen yr ysgol bellach, neu mae'r adeilad ei hun mewn cyflwr gwael ac mae angen gormod o waith atgyweirio arno.

Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i awdurdod lleol roi gwybod i bawb am unrhyw newidiadau y mae'n awyddus i'w gwneud, cyn gwneud y newidiadau hynny.

Yr enw ar hyn yw
**'cynnig trefniadaeth ysgolion'.**

Mae angen i awdurdod lleol wneud 'cynnig trefniadaeth ysgolion' os yw'n awyddus i wneud pethau fel:

- agor ysgol newydd
- gwneud ysgol yn fwy neu yn llai
- cau ysgol a symud y disgyblion i ysgol arall
- agor neu gau chweched dosbarth mewn ysgol uwchradd
- agor neu gau uned neu ddosbarth anghenion addysgol arbennig (AAA)
- newid yr iaith sy'n cael ei defnyddio mewn ysgol, o'r Saesneg i'r Gymraeg neu fel arall.

Nid oes angen i'r awdurdod lleol wneud 'cynnig trefniadaeth ysgolion' os yw am wneud newidiadau fel:

- paentio'r ysgol yn lliw gwahanol
- atgyweirio'r adeiladau
- plannu coed neu osod cyfarpar chwarae yn y lle chwarae.

Mae'r llyfryn hwn yn nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu cymryd wrth wneud cynnig trefniadaeth ysgolion er mwyn iddo gael gwneud newidiadau i ysgol.

# Cam 1

Rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i bobl am yr hyn y mae'n awyddus i'w newid er mwyn i bobl gael y cyfle i ddweud eu dweud am ei gynlluniau.

Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i lywodraethwyr, athrawon, staff yr ysgol, y rhieni, teuluoedd yn y gymuned a chi!

Pan fydd awdurdod lleol yn awyddus i newid ysgol yn eich ardal, dylai wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i fynegi barn, yn enwedig y cynghorau ysgol. Felly, rhaid i'r awdurdod wneud yn siŵr ei bod yn hawdd dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf a bod yr wybodaeth honno wedi ei hysgrifennu mewn ffordd sy'n hawdd ei deall. Hefyd dylai'r awdurdod egluro sut i ymateb.

Mae'r cam hwn yn cymryd 6 wythnos.

# Cam 2

Wedi i'r 6 wythnos ddod i ben, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried barn a sylwadau pawb cyn penderfynu a ddylai'r newidiadau fynd yn eu blaen.

## Oeddech chi'n gwybod?

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb byd-eang sy'n dweud bod hawliau gan bob plentyn a pherson ifanc.

Mae Erthygl 12 o'r Confensiwn yn dweud bod hawl gan blant a phobl ifanc i fynegi barn, a bod yn rhaid gwrando ar y farn honno wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Rydym yn meddwl y dylai hynny gynnwys penderfyniadau am eu hysgol.

## Cam 3

Bydd yr awdurdod lleol wedyn yn ysgrifennu adroddiad a'i roi ar ei wefan.

Bydd yr adroddiad yn dweud wrth bawb:

- beth oedd y prif sylwadau a ddaeth i law, a
- sut bydd y rhain yn effeithio ar y newidiadau y mae'r awdurdod yn awyddus i'w gwneud.

## Cam 4

Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu ei fod am fwrw ymlaen â'r newidiadau, rhaid iddo roi dogfen gyfreithiol o'r enw 'hysbysiad statudol' i fyny er mwyn rhoi gwybod i bawb.

Mae hynny'n rhoi cyfle arall i bawb, gan gynnwys plant a phobl ifanc, fynegi barn ynghylch pam maen nhw'n credu na ddylai'r newidiadau ddigwydd a hefyd i ddweud wrth yr awdurdod lleol am unrhyw beth arall a allai fod yn berthnasol, cyn iddo gyflwyno'r newidiadau. Os bydd angen, dylai plant a phobl ifanc gael help gan oedolyn i wneud hyn.

Mae'r cam hwn yn cymryd 28 diwrnod.

### Oeddech chi'n gwybod?

Os oes llai na 10 disgybl mewn ysgol, ac mae'r awdurdod lleol o'r farn y dylai'r ysgol honno gau, nid oes rhaid i'r awdurdod ddilyn camau 1-3. Mae'r awdurdod yn cael rhoi 'hysbysiad statudol' i fyny yn syth, ond rhaid i'r awdurdod wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod am yr hysbysiad er mwyn i bob un gael y cyfle i ddweud ei ddweud.

# Cam 5

Wedi'r 28 diwrnod, rhaid i'r awdurdod lleol wrando ar yr hyn y mae pobl wedi ei ddweud, cyn penderfynu a yw am fwrw ymlaen â'r newidiadau. Serch hynny ni fydd yr awdurdod yn rhoi'r gorau i'r newidiadau dim ond oherwydd nad yw rhai plant ac oedolion yn eu hoffi.

Ar ôl gwneud ei benderfyniad, rhaid i'r awdurdod ysgrifennu adroddiad a llythyr arall i'w rhoi ar ei wefan i bawb gael eu darllen.

Bydd y rhain yn egluro pam y bydd yn bwrw ymlaen â'r newidiadau neu pam y mae wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'i gynlluniau.

# Ac i gloi

Rhaid i unrhyw newidiadau y mae awdurdod lleol yn awyddus i'w gwneud ddangos sut y bydd y newidiadau'n helpu plant a phobl ifanc i gael yr addysg orau bosibl. Rhaid dangos sut y bydd y newidiadau'n helpu'r ysgolion yn ei ardal i fod cystal ag y maen nhw'n gallu bod.

## Diolch ichi am ddarllen y llyfryn hwn

I ddarllen y ddogfen lawn, ewch i:

http://goo.gl/FXSdfl

ISBN digidol 978 1 4734 0220 1

© Hawlfraint y Goron 2013

WG19764